OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 No. 376

# Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) 2007

## RHAN 3

Darpariaethau sy'n Gymwys i Gynhyrchion yn Gyffredinol

### Cynhyrchion sy'n beryglus i iechyd anifeiliaid neu iechyd y cyhoedd

**25.** Os yw milfeddyg swyddogol neu swyddog awdurdodedig o'r farn bod llwyth neu gynnyrch o drydedd wlad yn peri risg i iechyd anifeiliaid neu iechyd y cyhoedd, rhaid iddo, drwy hysbysiad ysgrifenedig a gyflwynir i'r person y mae'n ymddangos ei fod â gofal dros y llwyth neu'r cynnyrch, ei gymryd o dan ei ofal a'i waredu yn unol â rheoliad 24(4).